

Cyfarfod Cynllunio Grŵp Addysg a'r Iaith Gymraeg

Dydd Mawrth 1af Mehefin 2021, 10:00am tan 11:00

Microsoft Teams

Cofnodion

Mynychwyr

- Rebecca Falvey, Busnes yn y Gymuned
- Catrin James, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol
- Sian Rees, Cyngor Rhyngffydd Cymru
- Elin Maher, Cymraeg i Rien
- Kay Smith, Sefydliad Dysgu a Gwaith
- Clair Brick, Siawns Teg
- Gwendolyn Sterk, Cymorth i Ferched Cymru
- Lindsay Bewis, Snap Cymru
- Owen Evans, Plant yng Nghymru
- Susie Ventriss Field, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
- Ginger Wiegand, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig
- Felicitie Walls, CGGC
- Naomi Lea, CGGC
- Ben Lloyd, CGGC
- Fiona Harris, CGGC

Croeso a Chyflwyniadau

Siaradodd Ben am sut mae'r portffolio wedi newid a'i fod bellach yn cynnwys yr iaith Gymraeg a sut y mae angen newidiadau er mwyn sicrhau bod lle i drafod hyn

Cofnodion y cyfarfod cynllunio blaenorol

Derbyniodd y grŵp y cofnodion. Nododd Ben fod CGGC wedi ysgrifennu at y Gweinidog blaenorol i ddiolch iddi am ei chefnogaeth yn unol â'r cais yn ystod y cyfarfod blaenorol.

Eitemau posibl ar gyfer y Cyfarfod Gweinidogol nesaf

Camau Gweithredu:

Ail-bwysleisiodd Ben y tair eitem agenda arfaethedig y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod blaenorol:

- Sesiwn Dal i Fyny Adfer a Lles
- Y rôl y gall y sector ei chwarae o ran cefnogi'r cwricwlwm.
- Addysg ôl-orfodol gan gynnwys Addysg Uwch, Addysg Bellach, prentisiaethau a chyflogaeth ieuencid, a chymorth sgiliau.

Nododd fod hyn, siŵr o fod, yn ormod o eitemau ar gyfer y cyfarfod cyntaf gyda'r Gweinidog newydd am ei bod hefyd yn bwysig i gyfleu ein prif negeseuon polisi.

Nododd Elin y newid i'r portffolio a dywedodd bod angen rhoi ystyriaeth i'r mater hwn a'i bod yn bwysig dewis pethau a godwyd eisoes gyda'r Gweinidog blaenorol. Teimlodd fod angen i'r grŵp sefydlu ei nod a'r hyn yr hofffen ni ei weld fel trosolwg. Cytunodd Catrin.

Dywedodd Gwendolyn fod Cymorth i Ferched Cymru wedi ysgrifennu at y Gweinidog newydd ynghylch cyhoeddi'r canllaw Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a sut eu bod wedi ymgychu dros Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gynhwysol. Roeddent hefyd wedi esbonio sut y gallai'r sector gefnogi lles oherwydd teimlwyd nad oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r rolau gwahanol y mae'r sector yn eu chwarae ym maes addysg.

Roedd Susie yn gefnogol o'r hyn a ddywedwyd gan aelodau eraill a soniodd am bryderon ynghylch datblygu'r rhaglen Erasmus newydd. Teimlodd ei bod yn bwysig rhoi trosolwg i'r Gweinidog gan ddangos yr ystod eang o feysydd y mae'r sector yn ymwneud â nhw.

Roedd Kay yn awyddus i dderbyn dilyniant o ran ymrwymiad Llywodraeth Cymru flaenorol i ddysgu gydol oes. Nododd David fod gan y Gweinidog newydd ddiddordeb yn y maes hwn a'i fod yn un o ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Bevan.

Siaradodd Catrin ar adfer addysg ôl-16 oed a phontio i gyflogaeth – y portffolio Addysg a phortffolio'r Economi yn croesi eu gilydd. Bydd angen cynnwys hyn yn y trosolwg i'r Gweinidog. Hefyd, bydd angen bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn y Gronfa Adfywio Cymunedol a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Esboniodd Elin fod y Gweinidog newydd eisoes wedi ysgrifennu at bawb ac yn awyddus i barhau â gwaith y cyfarfodydd blaenorol felly roedd hyn wedi tawelu ei meddwl. Teimlodd yn bryderus o ran cynlluniau Addysg Strategol yn cael eu llunio gan Awdurdodau Lleol. Cafwyd rhywfaint o fewnbwn gan y sector gwirfoddol ond teimlodd ei bod yn bwysig bod mudiadau'n rhoi ymateb yn ystod yr ymgynghoriad. Teimlodd ei bod yn bwysig i godi'r mater gyda'r Gweinidog a gofyn sut y byddai'n sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cynnwys y sector.

Esboniodd Ben y gallen ni ddefnyddio'r papur trosolwg fel sbringfwrdd ar gyfer materion megis adfer a lles a'r rhaglenni cyfoethogi disgyblion yn ogystal â chynnwys cwestiwn ynghylch dysgu gydol oes.

Teimlodd David ei bod yn bwysig i'r Gweinidog glywed am rôl a diben y sector. Mae gan y Gweinidog ddiddordeb mewn rôl cymunedau, yn enwedig rôl teuluoedd ym maes addysg.

Nododd Elin fod gan Lywodraeth Cymru Brif Swyddog Addysg newydd a theimlodd y byddai'n syniad da i'w wahodd i gyfarfod cynllunio yn y dyfodol.

Dywedodd Kay fod ffocws newydd yn Llywodraeth Cymru o ran dysgu teuluol a'i effaith felly cymeradwyodd awgrym David.

Holodd Gwendolyn a allai'r grŵp ddangos yr hyn y mae'r sector wedi'i gyflawni – rhoi enghreifftiau o'r hyn y gallai ei chynnig yn nhermau cymorth a datblygu.

Dywedodd Catrin fod y mater hwn wedi cael ei godi dros y blynyddoedd diwethaf a bod y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol wedi addo i edrych ar ffordd ymlaen ond bod angen diweddariad.

Siaradodd Susie am waith Kevin Palmer gyda'r sector addysg amgylcheddol ond sut mae angen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu'n ehangach a theimlodd y dylid gwneud hyn trwy Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector.

Teimlodd Ben fod y papur ar gyfer y Gweinidog yn mynd i fod yn rhy swmpus felly byddai angen i bobl anfon gwybodaeth ar gyfer dogfen gefndirol ac, yna, byddai modd i ni gael trosolwg a dolenni i adfer ac i gwestiynau.

Awgrymodd Elin gyfeiriadur thematig ar gyfer y Gweinidog fel cyflwyniad i'r pethau yr hoffen ni fynd i'r afael â nhw a chynnwys llinell amser. Cytunodd Ben i anfon dolenni i ddogfen Google y gallai pobl fewnbynnu iddi.

Roedd David yn awyddus i archwilio cysylltiadau â phortffolios eraill, yn enwedig yr economi a newid hinsawdd, i weld sut y gallen ni helpu Llywodraeth Cymru i gysylltu ei gwaith ynghyd.

Esboniodd Ben y byddai CGGC yn edrych ar sut rydyn ni'n cynnwys materion yr iaith Gymraeg am eu bod yn ehangach na'r portffolio hwn yn unig a bydd angen creu fforwm newydd er mwyn i faterion gael eu codi ar draws Llywodraeth Cymru. Teimlodd Elin y dylen ni ofyn i'r Gweinidog a fyddai'n fodlon cynnal cyfarfodydd ar wahân ar gyfer materion yr iaith Gymraeg.

Diweddariad gan gynrychiolwyr y sector gwirfoddol ar grwpiau rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru

- Cadarnhaodd David y cynhaliwyd un cyfarfod Grŵp Dylunio Bagloriaeth Cymru yn unig yn ystod yr 20 mis a'i fod yn friff gwyllo
- Roedd Susie wedi rhannu sleidiau cyflwyniad cyfarfod diwethaf y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol. Teimlodd fod angen mapio ehangach am fod y gwaith yn wasgarog a byddai hyn yn ei gwneud yn haws i gysylltu'r dotiau ynghyd. Mae'n awyddus i wahodd swyddog Llywodraeth Cymru i fod yn bresennol yn y cyfarfod nesaf i esbonio'r gwaith.

Holodd Elin ba lwybrau ymgysylltu fyddai'n cyfrannu at weithgareddau'r cwricwlwm. Teimlodd Catrin y byddai ymgysylltu'n digwydd ond bod diffyg capasiti yn y sector gwirfoddol ar ôl y pandemig am fod gan nifer o fudiadau gapasiti llai

Nododd Ginger nad oedd y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol wedi cyfarfod ac yn pryderu mai un aelod o'r sector gwirfoddol yn unig oedd yn rhan o'r grŵp. Nododd Ben nad oedd strwythur er mwyn bwydo i mewn i'r ymchwil.

Unrhyw Fater Arall

Ni nodwyd unrhyw fater arall

Camau Gweithredu

CGGC i chwilio am ddyddiad ar gyfer cynnal cyfarfod â'r Gweinidog

CGGC i ddrafftio dogfen Google ar gyfer mewnbwn gan aelodau

CGGC i edrych ar sut i reoli materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg